

## Y CYNGOR DYDD IAU, 25 AWST 2022

### Presenoldeb:

Y Cyngorwyr: R.Medwyn Hughes (Cadeirydd y cyfarfod yma)

Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Anwen Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Linda A. Jones, Menna Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Edgar Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Elfed Williams, Gareth Williams a Gruffydd Williams.

### Swyddogion:

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Annes Sion (Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ynghyd ag aelodau'r cyhoedd oedd wedi ymuno â'r cyfarfod yn yr oriel gyhoeddus. Atgoffwyd y cyhoedd o'u hawl i wrando ar y trafodaethau, ond nid i siarad nac aflonyddu ar y cyfarfod mewn unrhyw fodd. Diolchwyd ymlaen llaw am eu cydweithrediad.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Y Cyngorwyr Glyn Daniels, Annwen Hughes, Elwyn Jones, June Jones, Kim Jones, Beth Lawton, Linda Morgan, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams a Sasha Williams.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r Cyngorydd Elwyn Jones, ar golli ei wraig. Anfonwyd cofion at y Cadeirydd a'r teulu yn eu colled.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru yn ddiweddar ynghyd a phawb o Wynedd a fu'n cystadlu yng ngemau'r Gymanwlad ym Birmingham dros yr Haf.

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion. Daeth y prif wobrau i gyd i Wynedd, neu i rai wedi eu magu yng Ngwynedd, yn arbennig Esyllt Maelor, Morfa Nefyn, gwraig a mam dau Gynghorydd yng Ngwynedd, ar ennill y Goron.

Llongyfarchwyd disgyblion y Sir ar eu canlyniadau Lefel A a TGAU.

Gwahoddwyd y Swyddog Monitro i egluro natur cyfarfod arbennig. Nododd bod Cadeirydd y Cyngor wedi derbyn cais wedi ei lofnodi gan bum Aelod o'r Cyngor yn galw am gyfarfod arbennig. Ategodd fod natur a sgôp y cyfarfod wedi cael ei osod yn y cais cyfarfod a dyma fyddai yn cynrychioli y busnes i'w drafod gan gynnwys yr hyn y gellir yn briodol ei gynnig. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, fel corff, yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg Statudol ac fel aelodau yn cyfarfod yn y rôl honno; ac fel aelodau etholedig bod eu cyflwyniadau a'u datganiadau yn y cyfarfod yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ac i Safon Gwynedd.

#### **4. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

#### **5. Y COD ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB**

Ar gais y Cadeirydd, derbyniwyd ac eiliwyd cynnig gan y Cynghorydd Louise Hughes i gyfeirio'r materion sydd yn ymwneud a chyflwyno'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng Nghymru o fis Medi 2022, ar gyfer ystyriaeth frys gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gyda'r hawl i alw arbenigwyr allanol i mewn i'r Pwyllgor hwnnw.

Gwahoddwyd y Cyng. Louise Hughes i ymhelaethu ar y cynnig. Nododd y sylwadau canlynol:

- Diolch am dderbyn cais cyfarfod arbennig ac i bawb am fynychu.
- Ei bod wedi galw cyfarfod oherwydd bod effaith cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn amlygu pryder a phoen meddwl iddi ynghyd ac anwybodaeth lawn o'r pwnc. Pwysig felly rhannu gwybodaeth a chynnal trafodaeth agored (gan dderbyn bydd gwahaniaeth barn)
- Bod cyflwyno Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol ac eisoes wedi ei gyflwyno yn Yr Alban a Lloegr – i'w gyflwyno yng Nghymru 01/09/22
- Bydd yr addysg yn cael ei gynnwys ar draws y cwricwlwm ac nid fel pwnc unigol – hyn yn peri pryder
- Bod achos Adolygiad Barnwrol ynglŷn â chyflwyniad y pwnc wedi ei dderbyn gan yr Uchel Lys
- A yw cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn diogelu ein plant? Yn eu gwarchod rhag pwy ac o beth?
- Bod cynnwys y cwricwlwm wedi ei selio ar waith Alfred Kinsey sydd yn dyddio'n ôl i'r 1940au - ymddygiad gwahanol yn y cyfnod yma
- Ei bod yn annog cyd Aelodau i ddarllen dogfennaeth Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)
- Bod yr addysg yn yr Alban eisoes yn cynnig cyfarwyddiadau eglur i blant 9-12 oed ar sut i gael rhyw
- Bod gemau adnabod a sut i enwi rhannau o'r corff yn Lloegr ac yn yr Alban ar gyfer plant 7-9 oed yn cael eu cynnwys yn y cyfarwyddiadau a bod yr addysg i ddechrau gyda phlant 3 oed.
- Yn ôl ymchwil, ni ddylai plant gael cynnig unrhywbeth nad ydynt yn gallu ei brosesu - rhaid ystyried bod aeddfedrwydd yn sail i wneud penderfyniadau
- Fel Cynghorwyr, rheini a llywodraethwyr dylai'r mater gael ei graffu – yn croesawu trafodaeth

Gwahoddwyd eilydd i'r cynnig, y Cyng. Gruffydd Williams i gyflwyno sylwadau

- Nad oedd yn ymwybodol bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal
- Bod angen sicrhau tryloywder. Angen rhannu gwybodaeth am derminoleg a themâu'r cwricwlwm
- A fydd deunyddiau, hyfforddiant, adnoddau ar gael?
- Angen sicrhau diogelwch plant drwy sicrhau bod mwy o gymorth ar gael cyn gweithredu. Cymryd mai athrawon a chymorthyddion yw'r 'ymarferion'?
- Angen canllawiau mwy penodol – a oes asesiad addasrwydd oed a datblygiad wedi ei gwblhau? A oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno?

Gwahoddwyd y Cyngorydd Beca Brown i agor yr ymateb fel yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am faterion addysg. Nododd y sylwadau isod:

- Bod y deunydd sydd yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol a trwy ddrysau pobol yn ddiweddar, gan griw sy'n llobio yn erbyn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ddeunydd cwbl anghywir a gwallus
- Nad oedd eisiau enwi'r grŵp llobio na rhoi plattform na chyhoeddusrwydd i bobl sy'n gweithredu mewn ffordd anghyfrifol, ac sydd mewn peryg o danseilio lles a diogelwch plant a phobl ifanc y wlad
- Ei bod yn gwbl gefnogol i'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i bod yn rhoi blaenoriaeth i les, diogelwch, iechyd a hapusrwydd plant a phobl ifanc Gwynedd.
- Yn dyheu i weld plant y Sir yn hyderus wrth greu perthnasau iach; yn hyderus wrth osod ffiniau o gwmpas eu cyrff eu hunain; yn hyderus i ddeud na; yn hapus yn eu croen eu hunain, i barchu croen y rhai sy o'u cwmpas nhw, ac i dyfu fyny i fod yn bobl empathi sydd yn deall ac yn parchu gwahaniaeth; yn deall ac yn parchu cydsynio ac yn byw eu bywyd gyda chyfartaledd, tegwch a charedigrwydd wrth wraidd bob dim maen nhw'n wneud.
- Bod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ganllaw i blant ddeall mwy amdanynt eu hunain a phobl eraill wrth iddynt dyfu i fyny ac yn cyflwyno addysg sydd wir ei angen bydd yn ymateb i'r holl son am fwlio ar sail rhywedd, rhywioldeb, hunaniaith, hil, crefydd neu gefndir.
- Bod yr addysg yma wedi cael ei ddatblygu gan arbenigwyr - yn athrawon, yn weithwyr ieuencid ac yn arweinwyr yn y maes. Arbenigwyr plant, sef ein hathrawon, fydd yn trosglwyddo'r addysg yn arbenigwyr sydd wedi rhoi oes o waith i wella byd plant a dim criw bach sy'n ceisio codi ofn a rhoi camagraff.
- Y Cod wedi cael ei gymeradwyo gan Senedd Cymru. Y Comisiynydd Plant a'r NSPCC yn llwyr gefnogol iddo.
- Bod pob dim sy'n cael ei ddysgu yn addas i oed ac i ddatblygiad y plant mewn dull addysg luosog - yn cyflwyno sawl safbwynt i'r plant heb wthio un yn fwy na'r llall.
- Bod y deunydd sy'n cael ei rannu gan y llobiwyr sydd yn erbyn yr addysg yma yn codi braw ac nid oherwydd pryder am yr hyn fydd yn cael ei ddysgu o dan y côd ond oherwydd bod gwybodaeth a newyddion ffug yn cael ei ledaenu am bwnc sydd yn ofnadwy o bwysig, lles plant.
- Plant Gwynedd yn haeddu'r addysg yma. Maent yn haeddu bod yn saff ac yn sicr wrth fynd drwy eu bywyd. Ein lle ni yw gwneud safiad dros eu hawliau a sicrhau eu bod yn cael yr hyn maent eu hangen, a'r hyn maent yn ei haeddu.

Gwahoddwyd y Swyddog Monitro i roi eglurhad cryno o ystyr adolygiad barnwrol. Nododd bod adolygiad barnwrol yn caniatáu i'r llys weithredu mewn modd goruchwyliol i adolygu cyfreithlondeb penderfyniad a wnaed gan gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu swyddogaethau cyhoeddus. Ategwyd nad oedd Cyngor Gwynedd yn rhan o achos adolygiad barnwrol sydd wedi ei wneud gan grŵp o rieni yn erbyn Llywodraeth Cymru ac mai caniatâd i'r rhieni wneud y cais yn unig sydd wedi ei dderbyn gan y Llys ac nad oedd dyfarniad wedi ei wneud ar rinweddau y cais. Ategodd ei fod yn derbyn bod y sefyllfa yn creu ansefydlogrwydd ond bod y gofyn statudol ar ysgolion i weithredu yn parhau mewn grym yn unol â gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Bod angen amddiffyn plant gan sicrhau eu bod yn ddiogel, cael eu hatal rhag niwed
- Bod dyletswydd ar Gynghorwyr y Sir i amddiffyn plant dan eu gofal a sicrhau addysg lawn i blant (ar draws y Cwricwlwm)
- Bod gofyn statudol yma i addysgu plant – yn croesawu'r ddeddfwriaeth newydd
- Bod angen hawl ar blant i dderbyn y gwersi heb ddewis gan y rhiant i'w heithrio
- Bod Comisiynydd Plant yn cefnogi'r cynnwys
- Bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori gyda phlant ac ymchwil yn amlygu'n glir y byddai plant yn ymateb yn well i wybodaeth gywir
- Bod addysg yn cryfhau diogelwch plant, yn fodd o wneud i blant sylweddoli beth sydd yn iawn a beth sydd ddim
- Bod llenyddiaeth gamarweiniol iawn yn cael ei ddsbarthu ymysg y cyhoedd
  
- Bod angen rhannu gwybodaeth gywir
- Bod angen parchu penderfyniadau a dewisiadau rhieni
- Bod gweithredu'r cod yn rhoi pwysau ychwanegol ar athrawon
- Mai'r Ysgol Uwchradd fyddai'r lle gorau i ddechrau dysgu addysg rhyw
- Hawdd gosod canllawiau ar bapur ond anodd fydd gweithredu
- Bod achos llys i ddod – a yw hyn yn gwarantu saib cyn gweithredu?
- Dyma'r unig bwnc na fydd gan rieni hawl ei newid.
- A ddylid craffu problemau a wynebwyd gan Yr Alban a Lloegr wedi cyflwyno'r addysg yma cyn dechrau gweithredu yng Ngwynedd?

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â barn athrawon, nododd y Prif Weithredwr bod athrawon ac undebau'r athrawon wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad a bod ganddo ffydd yn yr athrawon i addasu'r addysg yn briodol.

Yn ystod y drafodaeth bu i aelod o'r cyhoedd dorri ar draws y drafodaeth. Er derbyn rhybudd gan y Cadeirydd i dawelu, roedd yr unigolyn yn parhau i dorri ar draws. Gorchynnwyd iddo adael y Siambr. O ganlyniad, bu i amryw o'r cyhoedd ymateb ac aflonyddu ymhellach ar y cyfarfod. Penderfynwyd gohirio'r cyfarfod i geisio trefn.

Wrth ail agor y cyfarfod, gyda phresenoldeb yr Heddlu, nododd y Prif Weithredwr ei fod yn dymuno trafodaeth agored ac aeddfed a'i fod yn ymwybodol bod y pwnc yn un emosiynol. Gofynnodd i bawb barchu barn eraill ac ategodd y byddai'r Heddlu yn gwagu'r oriel gyhoeddus petai aflonyddwch pellach.

Rhodddwyd cyfle i aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau:

- Yn parchu gwahaniaeth barn ond rhaid rhoi diogelwch plant yn ganolog i bopeth
- Derbyn bod y pwnc yn un emosiynol ac nad oedd arbenigwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bresennol yn y cyfarfod
- Bod angen grymuso plant - addysg a gwybodaeth yn gwneud hyn:
- Er nad oes dewis ond gweithredu o'r 1af o Fedi 2022, angen monitro'r sefyllfa a chraffu'r cyflwyniad gan sicrhau hyfforddiant priodol i weithredu yn gywir.
- Bod angen adnabod aeddfedrwydd disgybl
- Rhaid diogelu plant ond sicrhau hefyd bod mesurau diogelu yn eu lle
  
- Nad oedd y cod yn cynnig newid mawr i'r addysg rhyw sydd eisoes yn cael ei gyflwyno ar wahân i'w integreiddio ar draws y cwricwlwm
- Y ddarpariaeth yn bwysig ac ar gael i bob plentyn
- Rhaid symud ymlaen gyda threfn ac nid dysgu ar fympwy
- Bod rhaid sicrhau gwybodaeth gywir i Gynghorwyr ymateb i gwestiynau rhieni

- Nad yw'r canllawiau yn pwysleisio mai 16 yw oedran cydsynio rhywiol
- Angen sicrhau bod athrawon yn cael eu gwarchod – eu diogelu rhag adlach
- Bod Cwricwlwm Cymru ar gyfer Cymru ac nid i'w gymharu gyda'r Alban a Lloegr
- Bydd athrawon yn trafod sut i addysgu yn ôl oed ac aeddfedrwydd
- Croesawu bod fframwaith pendant ac iach yn ei lle ac yn cefnogi arweiniad pendant Llywodraeth Cymru
- Nad oedd yr Adolygiad Barnwrol yn rheswm i newid penderfyniad.

Mewn ymateb i sylw bod y mater, ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Craffu angen sylw'r pwyllgor cyn cyfarfod mis Hydref 2022 a beth fyddai'n digwydd petai'r cynnig yn cael ei golli ar bleidlais, nododd y Prif Weithredwr mai ymateb a thrafod cynnwys y polisi oedd bwriad y Pwyllgor Craffu yng nghyfarfod 20 Hydref 2022.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Adran Addysg yn rhagweld problemau o ystyried bod rhai athrawon yn cael eu disgyblu yn Yr Alban a Lloegr, nododd y Swyddog Monitro nad oedd manylion yr achos wedi eu amlygu ond nid oedd yn gweld fod sail i bryderu os bydd athrawon yn cydymffurfio gyda gofynion y cwricwlwm a'r gyfraith.

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r drafodaeth, nododd y cynigydd, y Cyng. Louise Hughes, y pwyntiau canlynol:

- Ei bod yn croesawu'r drafodaeth ac yn diolch i bawb am eu cyfraniad
- Bod y pwnc yn faes cymhleth ac emosiynol
- Nad yw gwahaniaeth barn yn golygu bod yn anghywir
- Cyngor Gwynedd yr unig Gyngor yn Gymru i drafod y pwnc
- Dim gwrthwynebiad i addysg rhyw, ond angen gwarchod plant ifanc
- Bod gan rieni gyfrifoldebau a hawliau dros addysg eu plant
- Angen bod yn dryloyw, cymryd camau gofalus, dysgu o gamgymeriadau a chydweithio - dim rheswm dros bleidleisio yn erbyn craffu'r mater

Pleidleisiwyd ar y cynnig

**PENDERFYNWYD** gwrthod cyfeirio'r materion sydd yn ymwneud a chyflwyno'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng Nghymru o fis Medi 2022 ar gyfer ystyriaeth frys gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gyda hawl i alw arbenigwyr allanol i mewn i'r Pwyllgor hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

---

**CADEIRYDD**